**<u>Cynnig syniad yn Proteus ar gyfer Rownd Gomisiynu Llinol a Podlediadau BBC Radio Cymru 2027-2028</u>**

(Mae'r cyfarwyddiadau wedi'i sgrifennu gyda chyflenwyr annibynnol mewn golwg. Heblaw man newidiadau mae'r drefn yr un peth i gyflenwyr o fewn y BBC).

Ewch i change language i'r dde ar dop y sgrîn, a dewiswch Cymraeg.

Dewiswch **Commissions** ac yna **Create a Proposal** (mae'r ffurflen ei hun yn Gymraeg).

Rhowch deitl i'ch cynnig, ac yna dewis:

**Rhwydwaith:** Wales – Radio Cymru FM (hyd yn oed ar gyfer y podlediadau)

**Blwyddyn Gomisiynu / Rownd:** 2027-28/ 1 – Rownd Gomisiynu Llinol a Podlediadau BBC Radio Cymru

**Brîff Comisiynu:** Dewiswch y briff perthnasol:

Please Select...
80114 - Lleisiau Cymru 2027-2028
80116 - Podlediadau Cymraeg eraill 2027-2028
80113 - Rhaglenni 16:00 Sul 2027-2028
80112 - Swyn y Sul 2027-2028
80115 - Y Podlediad Dysgu Cymraeg 2027-2028

***** Gofalwch eich bod yn dewis y rhwydwaith, blwyddyn a'r rownd cywir. Os ydy'ch cynnig yn mynd i'r lle anghywir yn Proteus ni fyddwn ni'n ei weld.*****

Llenwch y wybodaeth ynglŷn a nifer, hyd a phris pob pennod. Mae'n angenrheidiol rhoi amcan bris. Cysylltwch gyda [syniadau@bbc.co.uk](mailto:syniadau@bbc.co.uk) os am drafod cyn llenwi y ffurflen.




**Meini Prawf Amrywiaeth a Chynhwysiant**

Nid yw'r adran yma'n orfodol wrth gyflwyno cynnig i ni ar hyn o bryd – dewiswch "not known" oherwydd ma' rhaid dewis rhywbeth.

O dan yr adran yna rhowch fanylion y cynhyrchydd ac hefyd enw y cyflwynydd / awdur os yn berthnasol.

**Dyddiad derbyn:** Nodwch pryd y gallai'r rhaglen(ni) fod yn barod i'w darlledu. Os ydych eisiau trafod hyn ymhellach yna nodwch 31/03/2028




**Crynodeb**

Rhaid rhoi Crynodeb byr, a defnyddiwch y Crynodeb Llawn i ddarparu mwy o fanylion.

Hefyd ychwanegwch unrhyw fanylion perthnasol yn yr adrannau Amrywiaeth a Chynhwysiant a Syniadau aml-gyfryngol



## Crynodeb

* Crynodeb byr (gofynnol)

*Defnyddiwch yr icon isod er mwyn copïo o Word. Defnyddiwch yr icon isod er mwyn copïo a dileu unrhyw fformatio..*

Dyma fanylion y rhaglen.

Crynodeb llawn

*Defnyddiwch yr icon isod er mwyn copïo o Word. Defnyddiwch yr icon isod er mwyn copïo a dileu unrhyw fformatio..*

Mwy o fanylion am y rhaglen.

## Amrywiaeth a Chynhwysiant

Allwch chi esbonio sut mae eich cynnig yn cwrdd â'r meini prawf ar gyfer amrywiaeth o fewn straeon a phortreadau? Am fanylion ewch i BBC Commissioning site

Ychwanegu manylion.

## Syniadau aml-gyfryngol

*Defnyddiwch yr icon isod er mwyn copïo o Word. Defnyddiwch yr icon isod er mwyn copïo a dileu unrhyw fformatio..*

Ychwanegu manylion.

Cyflwyno'r syniad: Ar ôl llenwi'r adrannau perthnasol dewiswch Arbed fel Drafft ar waelod y sgrîn.




Bydd tudalen newydd yn agor. Gwiriwch y drafft ac os yn hapus ewch i waelod y dudalen a phwyswch Cynnig i'r Adran.




Yna ewch i waelod y dudalen eto a phwyswch Cynnig i'r Rhwydwaith (Cwmnïau annibynnol yn unig).




**Mae'n rhaid i chi gynnig y syniad i'r Rhwydwaith cyn i ni ei weld.**

Fe fydd y rownd gomisiynu yn cau am ganol dydd yn ddi-ffael. Peidiwch aros tan fore y dyddiad cau cyn cyflwyno syniadau.

Trwy Proteus yr hysbysir pawb am ganlyniadau'r rownd gomisiynu. Er mwyn gweld y wybodaeth berthnasol i chi mae angen i chi logio i fewn i Proteus a mynd i'r cynnig / cynigon unigol i weld unrhyw negeseuon.

Diolch.